OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2802 (Cy. 300) (C. 97)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn cychwyn darpariaethau Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (mccc 3) (“y Mesur”).

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn yn dwyn i rym erthyglau 4(3) a 5(4) ar 28 Tachwedd 2011. Mae gweddill darpariaethau'r Mesur, i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym, yn cael eu dwyn i rym ar 1 Ebrill 2012.

Mae erthygl 3 o'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaethau trosiannol am baratoi a chyflwyno cyfrifon Bwrdd Ardollau Cymru am y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012 (“blwyddyn ariannol 2011/2012”) i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw paratoi'r cyfrifon hynny ac unrhyw faterion sy'n codi ohonynt.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn yn cynnwys darpariaeth arbed sy'n cadw rhwymedigaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio, ardystio, ac adrodd ar gyfrifon Bwrdd Ardollau Cymru am y flwyddyn ariannol 2011/2012 ynghyd â'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2802 (Cy. 300 ) (C. 97)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU

## Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011

*Gwnaed* *20 Tachwedd 2011*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer pwerau a roddwyd gan adrannau 17(2) ac 18 o Fesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010(**1**).

**Enwi, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010 (Cychwyn, Darpariaethau Trosiannol ac Arbed) 2011.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Gorchymyn hwn—

(a) ystyr "y Mesur" ("*the Measure*") yw Mesur Diwydiant Cig Coch (Cymru) 2010;

(b) ystyr "y Gorchymyn Ardollau" ("*the Levy Order*") yw Gorchymyn Bwrdd Ardollau Cymru 2008(**2**);

(c) ystyr "blwyddyn ariannol 2011/2012" ("*2011/2012 financial year*") yw 1 Ebrill 2011 hyd at 31 Mawrth 2012 gan gynnwys y dyddiadau hynny.

**Darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ebrill 2012**

**2.** Yn ddarostyngedig i erthyglau 3 a 4, daw darpariaethau'r Mesur i rym i'r graddau nad ydynt eisoes mewn grym fel a ganlyn—

(1) adrannau 4(3) a 5(4) ar 28 Tachwedd 2011;

(2) gweddill yr adrannau ar 1 Ebrill 2012.

---

(**1**) 2010 (mccc 3).
(**2**) O.S. 2008/420 (Cy.39).

### Darpariaeth drosiannol

**3.—**(1) O ran y flwyddyn ariannol 2011/2012 mae rhwymedigaethau Bwrdd Ardollau Cymru o dan erthyglau 13(3)(b) (paratoi cyfrifon) a 13(4) (cyflwyno cyfrifon i Archwilydd Cyffredinol Cymru) o'r Gorchymyn Ardollau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru.

(2) Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfrifon sy'n gofyn am weithredu pellach.

### Darpariaeth arbed

**4.** O ran y cyfrifon a baratowyd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2011/2012, mae rhwymedigaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan erthygl 13(5) (archwilio, ardystio, adrodd ar gyfrifon a'u gosod) o’r Gorchymyn Ardollau yn parhau i fod yn effeithiol.

*Alun Davies*

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd, o dan awdurdod y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth, un o Weinidogion Cymru

20 Tachwedd 2011